

# CANLLAW AR GYFER LLYWODRAETHWYR

Ieithoedd Modern a Rhyngwladol

**LLWYBRAU AT IEITHOEDD CYMRU**

routes into LANGUAGES
llwybrau at ieithoedd CYMRU

©Llwybrau at Ieithoedd Cymru 2020

# CANLLAW AR GYFER LLYWODRAETHWYR

Llwybrau at Ieithoedd Cymru mewn partneriaeth â Governors Cymru a Phrifysgol Caerdydd

©Llwybrau at Ieithoedd Cymru 2020

# CYNNWYS


1. Cyflwyniad - p.1

2. Y Pecyn Arfarnu Ieithoedd Modern ar gyfer Llywodraethwyr - p.4

3. Atodiadau y Pecyn Ieithoedd Modern:

- Tabl defnyddiol er mwyn casglu data - p.8
- Esiampl o Holiadur y Disgybl - p.9
- Strategaethau defnyddiol er mwyn cefnogi Ieithoedd Modern - p.13

4. Disgrifiad Swydd Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern - p.14

5. Cyflwyniad am y Pecyn Arfarnu Ieithoedd Modern - p. 19

6. Manylion cyswllt defnyddiol - p. 20




# CYFLWYNIAD

**Cyflwyniad**

Rydym i gyd yn ymwybodol o’r anawsterau a’r rhwystrau sy’n wynebu ieithoedd modern a’r lleihad yn y niferoedd sy’n dewis astudio ieithoedd yn ein hysgolion.

“Mewn cyd-destun lle y caiff ysgolion eu trin mewn ffordd gynyddol annibynnol, mae gan uwch arweinwyr mewn ysgolion y pŵer i oresgyn rhai o’r rhwystrau hyn, drwy amserlennu, neilltuo amser, dylunio colofnau opsiynau – hyd yn oed, o bosibl, gwneud y pwnc yn orfodol i rai disgyblion – a thrwy sefydlu ethos rhyngwladol sy’n ystyriol i ieithoedd yn yr ysgol."
*British Council  Cymru 2018*

Er hyn, rydym hefyd yn ymwybodol o resymau pwysicach o alluogi ein disgyblion i barhau astudio iaith – nawr yn fwy nag erioed.

‘Ôl-Brexit:  Mae astudio iaith a diwylliant yn fwy pwysig nag erioed’
Prifysgol Caergrawnt

‘Golyga Brexit y bydd angen mwy o siaradwyr Sbaeneg, Mandarin, Ffrangeg, Arabeg ac Almaeneg yn ôl adroddiad gan y TES’



## Mewnbwn Llywodraethwyr

Mae mewnbwn llywodraethwyr mewn partneriaeth ag uwch arweinwyr mewn ysgolion yn allweddol wrth gynllunio a llywio'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion.

Mae llywodraethwyr hefyd yn chwarae rôl bwysig wrth ddwyn yr ysgol i gyfrif am gyflawniad disgyblion a safon y dysgu ac addysgu. Caiff effeithlonrwydd y corff llywodraethol wrth berfformio'r rôl hon ei werthuso gan arfarniadau Estyn. Byddant yn edrych ar allu'r corff llywodraethol i werthuso cryfderau a gwendidau'r ysgol a defnyddio'r canfyddiadau i hyrwyddo cyflawniad.

Mae Llwybrau at Ieithoedd Cymru wedi datblygu Pecyn Arfarnu Ieithoedd Modern gydag awgrymiadau ar sut y gall llywodraethwyr wynebu'r heriau a'r gofynion cynyddol wrth gyflwyno Ieithoedd Modern mewn ysgolion.

### Sut i ddefnyddio'r Pecyn Arfarnu Ieithoedd Modern

Trwy ddwyn ynghyd llywodraethwyr, staff ysgol, academyddion prifysgol a busnesau i weithio mewn partneriaeth, byddwch yn medru pwyso a mesur eich arferion cyfredol a rhai'r dyfodol gan hybu a hyrwyddo astudio ieithoedd modern yn eich ysgol.

Cynlluniwyd y templedi, gwybodaeth a nodiadau arweiniol fel cymorth ac mae croeso i chi eu defnyddio a'u haddasu yn unol â gofynion penodol eich ysgol.



### Pwrpas y Pecyn Arfarnu yw cynorthwyo cyrff llywodraethol i:

- greu naratif ar gyfer ieithoedd wrth baratoi ar gyfer arolygon Estyn.
- gasglu data a gwybodaeth allweddol a fydd yn galluogi'r ysgol i asesu 'iechyd' ieithoedd modern yn yr ysgol.
- benderfynu ar anghenion y disgyblion.
- gynyddu'r niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd modern – adeiladu capasiti.
- gefnogi'r ysgol trwy ofyn cwestiynau allweddol ar baratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.

**Arweiniad – camau a argymhellir**

1. Adnabod aelod allweddol o'r corff llywodraethol a fydd yn bennaf gyfrifol am yr arolwg ieithoedd ac a fydd yn Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer yr Adran Ieithoedd Modern. Cliciwch yma er mwyn gweld esiampl o ddisgrifiad swydd ar gyfer Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern.
2. Gofyn i'r cyswllt o'r uwch dîm rheoli, sy'n gyfrifol am y cwricwlwm a safonau disgyblion, am ddata allweddol sy'n dangos y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd a'r safonau a gyrhaeddir mewn ieithoedd modern (Atodiad 1 o'r Pecyn Arfarnu).
3. Yn y lle cyntaf, pob aelod o'r corff llywodraethol i gwblhau'r arolwg yn ei amser ei hunan (bydd angen coladu'r ymatebion yma) neu yn ystod cyfarfod o'r corff llywodraethol. Awgrymir bod hyn yn cael ei wneud heb fewnbwn yr uwch dîm rheoli.
4. Gellir gosod yr ymatebion a gasglwyd o'r awdit (gan gynnwys data allweddol) ar agenda cyfarfod nesaf y corff llywodraethol. Gellir hefyd defnyddio enghreifftiau ac astudiaethau achos er mwyn llywio'r drafodaeth.
5. Yn dilyn y drafodaeth rhwng y corff llywodraethol a'r uwch dîm rheoli, gellir creu cynllun gweithredu a bydd hwn yn cael ei fonitro mewn cyfarfodydd dilynnol o'r corff llywodraethol.
6. Gellir trafod pa gefnogaeth ychwanegol fydd ei angen hefyd megis cysylltiadau busnes, trafodaeth gyda Llwybrau at Ieithoedd ayyb.

**Cefnogaeth i Lywodraethwyr**

Gall Llwybrau at Ieithoedd eich cynorthwyo trwy:

- Eich cefnogi wrth ddatblygu cyrch gorchwyl eich Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern.
- Eich cefnogi i ddatblygu cysylltiadau gyda sefydliadau eraill.
- Cynnal cyfarfod hanner niwrnod gyda'ch Llywodaethwr Cyswllt Ieithoedd Modern i drafod yr arolwg ac yna hwyluso sgyrsiau dilynnol am unrhyw anawsterau a chynnig datrysiadau posibl.
- Cynnig cefnogaeth reolaidd, gweithgareddau a chynlluniau er mwyn cynorthwyo gyda'r dasg o lywio'r ddarpariaeth ar gyfer ieithoedd a chynnig arweiniad.

**Manylion cyswllt**

Llwybrau at Ieithoedd Cymru: info@routesintolanguagescymru.co.uk
Governors Cymru: http://www.governors.cymru/

# PECYN ARFARNU IEITHOEDD MODERN ER MWYN CEFNOGI CYRFF LLYWODRAETHOL

Gwerthusiad o 'iechyd' Ieithoedd Modern yn yr ysgol a pharatoi ar gyfer Arolygiadau Estyn a'r Cwricwlwm Newydd

**Cyfrifoldeb llywodraethwyr ac uwch reolwyr**

| CWESTIWN | SUT MAE HYN YN EDRYCH YN EICH YSGOL AR HYN O BRYD? | SUT YR HOFFECH I HYN EDRYCH YN EICH YSGOL? |
|---|---|---|
| **1.** A yw'r llywodraethwyr a'r uwch dîm rheoli yn ymwybodol o bwysigrwydd ieithoedd modern i economi Cymru a'r DU?<br><br>Os na, a ddylai'r ysgol roi ystyriaeth i hyn?<br><br>A ddylai'r corff llywodraethol benodi llywodraethwr cyswllt ar gyfer ieithoedd modern?<br>*Ceir cefnogaeth ar gyfer y llywodraethwyr yma wrth Llwybrau at Ieithoedd Cymru a hefyd wrth Rwydwaith Cenedlaethol Llywodraethwyr Ieithoedd.* | | |
| **2.** A yw eich ysgol yn ystyried ieithoedd fel pwnc allweddol ac a yw'r uwch dîm wedi mynegi pwysigrwydd ieithoedd i staff, disgyblion a rhieni?<br>Os na, paham? | | |
| **3.** A ydych yn ymwybodol o'r duedd yn y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd modern yn yr ysgol dros y pedair blynedd ddiwethaf?<br>*Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r data sydd ei angen arnoch er mwyn cael y wybodaeth yma.* | | |
| **4.** A ydych chi'n gwybod sut y mae disgyblion sy'n astudio ieithoedd modern wedi perfformio dros y pedair blynedd ddiwethaf gan gynnwys yng Nghyfnod Allweddol 3?<br>*Mae Atodiad 1 yn amlinellu'r data sydd ei angen arnoch er mwyn cael y wybodaeth yma.* | | |

# PECYN ARFARNU IEITHOEDD MODERN ER MWYN CEFNOGI CYRFF LLYWODRAETHOL

| CWESTIWN | SUT MAE HYN YN EDRYCH YN EICH YSGOL AR HYN O BRYD? | SUT YR HOFFECH I HYN EDRYCH YN EICH YSGOL? |
|---|---|---|
| **5.** A ydych yn ymwybodol o effaith y 'blociau opsiwn' ar y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd?<br><br>A yw blociau opsiwn yn rhwystro, cyfyngu neu'n gwneud disgyblion yn llai teybygol o ddewis astudio ieithoedd?<br><br>Sut ydych chi'n sicrhau bod yna gyfleoedd digonol i ymestyn ieithyddion mwyaf abl eich ysgol? | | |
| **6.** A ydych yn gwybod faint o amser sy'n cael ei roi ar gyfer addysgu Ieithoedd Modern yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4?<br><br>A oes yna amser digonol yn cael ei roi er mwyn paratoi disgyblion i ddechrau cwrs TGAU newydd ac yn ystod astudio'r cwrs TGAU?<br><br>*Fel arfer dda, awgrymir y dylid cynnig dwy awr o iaith yng Nghyfnod Allweddol 3.* | | |
| **7.** A yw'r uwch dîm rheoli wedi gwneud adolygiad o paham bod y tueddiadau yma'n bodoli? Beth oedd y rhesymau drostynt? | | |
| **8.** A ydych chi'n gwybod beth mae disgyblion yn ei ddweud am ieithoedd? A ydych wedi cynnal arolwg gan ddefnyddio'r canlyniadau i lywio strategaeth yr ysgol?<br><br>*Fewelwch enghraifft o holiadur y disgybl yn Atodiad Dau.* | | |
| **9.** Beth mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ei wneud er mwyn mynd i'r afael â dirywiad mewn niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd, os oedd un yn bodoli?<br><br>*Mae Atodiad Tri yn rhoi enghreifftiau o strategaethau.* | | |
| **10.** Pa effaith gafodd unrhyw strategaethau ar y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd?<br><br>A yw'r strategaethau yma wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Ysgol? A ydych yn eu monitro nhw? | | |
| **11.** Os mai cynyddu wnaeth y niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd yn yr ysgol, beth wnaeth yr uwch dîm rheoli er mwyn sicrhau'r newid hwn?<br><br>Sut y gallwch amlinellu hyn yn yr Adroddiad Hunanarfarnu ar gyfer Estyn - arfer dda? | | |

# PECYN ARFARNU IEITHOEDD MODERN ER MWYN CEFNOGI CYRFF LLYWODRAETHOL

| CWESTIWN | SUT MAE HYN YN EDRYCH YN EICH YSGOL AR HYN O BRYD? | SUT YR HOFFECH I HYN EDRYCH YN EICH YSGOL? |
|---|---|---|
| **12.** A ydych yn ymwybodol o staffio cyfredol yr adran ieithoedd modern a sut y mae'r uwch dîm rheoli yn sicrhau dysgu ac addysgu rhagorol yn yr ystafell ddosbarth?<br><br>• A drefnir sesiynau DPP pwnc benodol?<br><br>• A yw hyn yn rhan o'r ddeialog mewn adolygiad rheoli perfformiad? | | |
| **13.** A ydych yn ymwybodol o'r paratoadau a wneir gan yr Uwch Dîm Rheoli a'r Adran Ieithoedd er mwyn paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Newydd?<br><br>A ydych yn sicr na fydd ieithoedd modern yn cael eu hieithrio o'r cwricwlwm?<br><br>A oes yna fethodoleg priodol yn cael ei ddatblygu er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ?<br><br>Sut mae athrawon y maes dysgu a phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn rhannu arbennigedd ac a ydynt yn cydweithio'n effeithiol ? | | |

# ARCHWILIAD IEITHOEDD MODERN

**Templad ar gyfer gwneud awgrymiadau i arweinwyr ysgol**

**Dyddiad yr adolygiad:**

## 1. Meysydd allweddol ar gyfer datblygiad/gwelliant

## 2. Pwyntiau Gweithredu Allweddol ar gyfer arweinwyr ysgol

| PWYNT GWEITHREDU | CYTUNWYD GAN YR UDRH (ENW) | CYTUNWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL | DYDDIAD CWBLHAU'R PWYNT GWEITHREDU |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## 3. Pwyntiau Gweithredu Allweddol ar gyfer yr ysgol

| PWYNT GWEITHREDU | GOBLYGIADAU ADNODDAU/GAN GYNNWYS CYMORTH ALLANOL | AR GYFER (ENW) | DYDDIAD CWBLHAU'R PWYNT GWEITHREDU |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

## 4. Dyddiadau ar gyfer adolygu'r Pwyntiau Gweithredu

-
-
-

**Arwyddwyd- Cadeirydd y Corff Llywodraethol:** **Dyddiad:**

**Arwyddwyd – Pennaeth:** **Dyddiad:**

# TABL DEFNYDDIOL ER MWYN CASGLU DATA

Bydd y ddogfen hon yn eich cynorthwyo i gwblhau cwestiwn 3 gan eich galluogi i ddarganfod beth yw'r tueddiadau yn y niferoedd sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern dros y pedair blynedd ddiwethaf.

| **Cwestiwn 3 – Tueddiadau yn y niferoedd sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern Iaith………** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **Tuedd dros y 4 blynedd ddiwethaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| TGAU – niferoedd | | | | | |
| TGAU-% y disgyblion | | | | | |
| UG – niferoedd | | | | | |
| UG- % y disgyblion | | | | | |
| Lefel A –niferoedd | | | | | |
| Lefel A - % y disgyblion | | | | | |

| **Cwestiwn 4 – Y safonau a gyrhaeddir gan ddisgyblion sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern** | **2016** | **2017** | **2018** | **2019** | **Tuedd dros y 4 blynedd ddiwethaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| **TGAU** | | | | | |
| % A – E | | | | | |
| % A-C | | | | | |
| **UG** | | | | | |
| %A-E | | | | | |
| %A-C | | | | | |
| %A | | | | | |
| **Lefel A** | | | | | |
| %A*-E | | | | | |
| %A*-C | | | | | |
| %A* - A | | | | | |
| **CA3** | | | | | |

# HOLIADUR AM AGWEDDAU AT IEITHOEDD MODERN CA3

BLWYDDYN: ______________________

SET/ GRŴP: ______________________

**1. Pa iaith/ieithoedd modern wyt ti'n ei/eu dysgu ar hyn o bryd? Sut wyt ti'n teimlo am y gwersi yn gyffredinol?**

Ysgrifenna'r iaith ar y chwith yna rho X yn y bocs sy'n cyfleu dy deimladai di.

| Iaith 1 | | ↔ | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n mwynhau | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Rwy'n diflasu |
| | Rwy'n dysgu llawer | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Nid wy'n dysgu llawer |
| | Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Nid oes gen i ddiddordeb yn y pwnc |
| | Mae'n hawdd i mi | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Mae'n anodd i mi |
| | Mae'n hawdd i ddisgyblion eraill y dosbarth | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Mae'n anoddi i ddisgyblion eraill y dosbarth |

| Iaith 2 | | ↔ | |
|---|---|---|---|
| | Rwy'n mwynhau | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Rwy'n diflasu |
| | Rwy'n dysgu llawer | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Nid wy'n dysgu llawer |
| | Mae gen i ddiddordeb yn y pwnc | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Nid oes gen i ddiddordeb yn y pwnc |
| | Mae'n hawdd i mi | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Mae'n anodd i mi |
| | Mae'n hawdd i ddisgyblion eraill y dosbarth | ☐ ☐ ☐ ☐ ☐ | Mae'n anoddi i ddisgyblion eraill y dosbarth |

**2. A wyt ti'n bwriadu dewis astudio iaith fodern ym mlwyddyn 10?**

Rhowch Ydw neu Nac ydw a dywedwch pam.

Ydw ☐ Pa iaith/ieithoedd?

Pam?

Nac ydw ☐ Pam?

3. Pe bai gennyt ti ddewis, pa iaith fodern hoffet ti ei dysgu? Pam?
(Os na hoffet ti astudio unrhyw iaith, rho reswm pam)

| | |
|---|---|
| Dewis cyntaf: | oherwydd... |
| Ail ddewis: | oherwydd... |

4. A alli di feddwl am sefyllfa yn y dyfodol lle gallai siarad iaith fodern efallai fod o ddefnydd i ti?

5. Yn dy farn di, pa mor bwysig yw dysgu ieithoedd modern?
Rhowch mewn un bocs ac esboniwch pam y dywedwch hynny.

| | dim yn bwysig o gwbl | ychydig bach yn bwysig | eithaf pwysig | pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| I ti: | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Pam?

| | dim yn bwysig o gwbl | ychydig bach yn bwysig | eithaf pwysig | pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| I bobl eraill: | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Pam?

6. Pa fath o swydd hoffet ti ei chael yn y dyfodol?

Faint o ddefnydd o iaith fodern fydd yna yn y swydd honno?

☐ ☐ ☐ ☐ ☐

Bach iawn ⟷ Llawer

**7. Beth yw dy deimladau di am y brawddegau canlynol am ddysgu ieithoedd yn gyffredinol?** Am bob un ohonynt, rho tic yn UN o'r bocsys sy'n cyfleu dy farn di orau.

| | Anghytuno'n llwyr ⟷ | | | | Cytuno'n llwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| Dim ond pobl sydd eisiau bod yn athrawon iaith/cyfieithwyr sydd angen dysgu ieithoedd modern. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gan bobl sy'n siarad ieithoedd modern fwy o gyfleoedd mewn bywyd na phobl sydd ddim yn eu siarad. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gall dysgu iaith fodern fod yn brofiad gwerthfawr iawn. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Yr unig reswm sydd angen i chi ddysgu iaith arall yw os ydych chi'n bwriadu byw mewn gwlad arall. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Bydd medru siarad iaith fodern yn bwysig iawn i fy nyfodol i. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae dysgu ieithoedd eraill yn wastraff amser. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'n bwysig iawn dysgu iaith fodern er bod llawer iawn o bobl yn siarad fy iaith i. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae siarad iaith fodern yn helpu pobl i deimlo yn well am eu hunain. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'n werth dysgu iaith fodern er nad wyf yn meddwl y byddaf ei angen yn y dyfodol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae angen i bobl sy'n siarad Saesneg ddysgu ieithoedd modern. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Wrth deithio i wlad arall, mae'n bwysig iawn gwybod pa iaith maent yn siarad yno. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae dysgu ieithoedd yn ddiflas. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Dylai pawb ddysgu siarad o leiaf un iaith fodern. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**8. A yw'ch athro wedi rhoi gwybodaeth i chi am y pethau isod?**
Gallwch roi tic mewn mwy nag un bocs:

- ☐ Pam bod ieithoedd yn bwysig
- ☐ Pam bod ieithoedd yn bwysig mewn nifer fawr o swyddi ac yn cynyddu eich siawns o gael swydd
- ☐ Y mathau o raddau prifysgol y gallwch eu hastudio gydag ieithoedd
- ☐ Y mathau o yrfaoedd a swyddi sydd ar gael os byddwch yn astudio ieithoedd
- ☐ Sut mae astudio ieithoedd yn medru cynyddu eich cyflog os cewch swydd
- ☐ Sut mae ieithoedd yn medru eich helpu mewn pynciau eraill
- ☐ Pam ei bod hi'n bwysicach nag erioed i ddysgu ieithoedd yn enwedig gan ein bod ni bellach wedi ga—dael yr Undeb Ewropeaidd

**9. A yw eich athro wedi trefnu unrhyw rai o'r canlynol?**
Gallwch roi mewn mwy nag un bocs:

- ☐ Siaradwyr gwadd i sôn wrthych chi am bwysigrwydd ieithoedd
- ☐ Siaradwr gwadd o ddiwydiant i esbonio pa mor bwysig yw astudio ieithoedd i fyd busnes
- ☐ Llysgennad Iaith o'ch prifysgol leol i weithio gyda'ch dosbarth chi
- ☐ Sgyrsiau iaith am yrfaoedd
- ☐ Llysgenhadon Iaith o'ch ysgol chi sy'n gweithio gyda chi a'n siarad gyda chi am astudio ieithoedd
- ☐ Diwrnodau iaith a diwylliant yn eich ysgol
- ☐ Clybiau iaith – amser cinio neu ar ôl ysgol
- ☐ Ymweliadau tu allan i'r ysgol i'ch helpu i ddysgu am ieithoedd e.e. teithiau tramor, ymweld â'r brifysgol
- ☐ Gwybodaeth i chi a'ch rhieni am bwysigrwydd ieithoedd pan ydych chi'n gwneud eich dewisiadau opsiwn

**'Rwyn'n adnabod fy hun fel:** **bachgen** ☐ **ferch** ☐

**Mae'n well gen i beidio â dweud** ☐

(Dewiswch un bocs.)

Os hoffech chi gymryd rhan mewn cyfweliad byr am y pwnc hwn ar y cyd gyda ffrind o'ch dosbarth yna rhowch ☑ yn y bocs hwn: ☐

**Diolch yn fawr iawn am eich help!**

☺

Rhoddir diolch i Brifysgol Efrog am rannu'r arolwg hwn

# STRATEGAETHAU DEFNYDDIOL ER MWYN CEFNOGI IEITHOEDD MODERN

**Atodiad 3:**
Mae'r ddogfen hon yn cyd-fynd â chwestiwn 9 o'r arolwg i gyrff llywodraethol a mae'n dangos esiamplau o strategaethau a ddefnyddiwyd i wyrdroi'r lleihad mewn niferoedd sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern mewn ysgolion.

**Beth mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ei wneud er mwyn mynd i'r afael â dirywiad mewn niferoedd sy'n dewis astudio ieithoedd, os oedd un yn bodoli?**

**DYLUNIO'R CWRICWLWM**

- Ail-ddylunio'r cwricwlwm er mwyn 'annog' y disgyblion mwyaf abl i ddewis iaith.
- Sicrhau nad yw'r blociau opsiwn yn rhwystro disgyblion rhag astudio ieithoedd.
- Sicrhau bod yna nifer o oriau priodol yn cael eu rhoi ar gyfer dysgu ieithoedd yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4.
- Dewis aelod o'r corff llywodraethol i fod yn Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Ieithoedd Modern.

**HYRWYDDO IEITHOEDD**

- Hyrwyddo pwysigrwydd ieithoedd e.e. ysgolion haf/diwrnodau iaith; ysgogi, cyfoethogi ac ehangu gorwelion y disgyblion; diwrnodau thematig iaith/diwylliant; ymweliadau wrth siaradwyr gwadd o fusnesau; profiad gwaith yn gysylltiedig ag ieithoedd.
- Defnyddio myfyrwyr a disgyblion sy'n llysgenhadon iaith i hyrwyddo a chefnogi dysgu ieithoedd.
- Defnyddio cyn-ddisgyblion i hyrwyddo ieithoedd.
- Datblygu deunydd hyrwyddo ar gyfer rhieni mewn nosweithiau opsiynau.
- Rhoi gwybodaeth yrfaoedd ac arweiniad er mwyn hyrwyddo ieithoedd.

**GWNEUD CYSYLLTIADAU Â SEFYDLIADAU ERAILL**

- Defnyddio a chydweithio â'r 'Consortia Addysgu Rhanbarthol'.
- Gwneud cysylltiadau â chanolfannau rhagoriaeth ranbarthol e.e. Llwybrau at Ieithoedd Cymru. <http://routesintolanguagescymru.co.uk/>
- Defnyddio Llysgenhadon Iaith Llwybrau at Ieithoedd Cymru er mwyn hyrwyddo a chefnogi dysgu ieithoedd.
- Datblygu perthynas ag ysgolion cynradd sy'n bwydo'r ysgol gan hyrwyddo diddordeb mewn ieithoedd.
- Gwneud cysylltiadau â'r brifysgol leol neu'r sefydliadau iaith.
- Cysylltu â busnesau – siaradwyr gwadd.

# DISGRIFIAD SWYDD LLYWODRAETHWR CYSWLLT IEITHOEDD MODERN

**DISGRIFIAD SWYDD LLYWODRAETHWR CYSWLLT IEITHOEDD MODERN**

Pwrpas y disgrifiad hwn yw cynorthwyo cyrff llywodraethol i ddiffinio rôl a chylch gwaith y llywodraethwr cyswllt. Gellir addasu'r esiampl i gwrdd ag anghenion penodol eich ysgol.

**Beth yw Llywodraethwr Cyswllt?**

Llywodraethwr a benodir gan y corff llywodraethol fel cyswllt rhwng y corff llywodraethol a phwnc/adran neu agwedd benodol o waith yr ysgol yw llywodraethwr cyswllt.

Prif nod y rôl yw darparu cefnogaeth i'r adran a hefyd darparu gwybodaeth gyson i'r corff llywodraethol ac i baratoi ar gyfer ymweliadau Estyn.

Rhaid datblygu perthynas waith da yn seiliedig ar ymddiriedaeth gyda'r holl staff er mwyn sicrhau bod y llywodraethwr cyswllt yn effeithiol yn y rôl hon. Wrth ymweld, mae'n bwysig nad yw'r llywodraethwr yn amharu ar waith ar adran mewn unrhyw ffordd. Er hyn, mae'n bwysig cael y darlun cyflawn o'r hyn sy'n digwydd. Dylid cymryd gofal i beidio ag ychwanegu'n ddiangen at lwyth gwaith staff.

**Cyflwyniad**
Dylai llywodraethwr cyswllt fod yn glir am y rôl a'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohono a sut i weithredu ar hyn.

<u>Adrodd yn ôl yn dilyn cyfarfod cyswllt</u>
Dylai llywodraethwyr fod yn medru adrodd yn ôl i'r corff llywodraethol ar:
a) y prif faterion sy'n wynebu Ieithoedd Modern yn yr ysgol.
b) y niferoedd sy'n dewis astudio Ieithoedd Modern yn yr ysgol a'r safonau a gyrhaeddir gan y disgyblion.
c) y rhwystrau sy'n atal gwelliannau.
d) ba gymorth sydd ei angen ar y pwnc/adran oddi wrth y corff llywodraethol a'r uwch dîm rheoli.

Dylid rhannu'r wybodaeth yma gyda'r corff llywodraethol llawn neu bwyllgor perthnasol, gan alluogi llywodraethwyr i gyflawni eu rolau strategol. Fel rheol, dylid cyflwyno adroddiad ysgrifenedig cyn y cyfarfod gan ddefnyddio'r profforma a gytunwyd.

**Llywodraethwr Cyswllt Ieithoedd Modern:**

Rôl: Bod yn gyswllt rhwng y corff llywodraethol, y pwyllgor cwricwlwm (os yn briodol) a staff yr adran Ieithoedd Modern.

**Cylch Gwaith:**

Cyffredinol:

a) darparu tystiolaeth i Estyn at sut mae'r llywodraethwyr yn rhan o wrth waith yr ysgol.

b) cwrdd â'r Pennaeth yn y lle cyntaf a chytuno ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn.

c) cyfarfod a bod mewn cysylltiad rheolaidd gyda phennaeth yr adran ieithoedd modern (o leiaf dwywaith y flwyddyn).

d) darparu cymorth, anogaeth a chlust i wrando i'r adran Ieithoedd Modern.

e) trafod a chynnig cefnogaeth wrth hyrwyddo ieithoedd yn yr ysgol a gyda rhieni.

f) bod yn adfocad ar ran y corff llywodraethol o blaid y pwnc/maes cwricwlwm.

g) ymweld â'r ysgol gyda ffocws clir o beth a gytunwyd gyda'r pennaeth a phennaeth yr adran yn unol â Pholisi Ymweliadau Llywodraethwyr. Gall ymweliadau gynnwys:

· arsywi gwersi/troeon dysgu (fel ymarfer monitro ac nid fel mewn arolwg).

· dysgu am elfennau eraill yr adran Ieithoedd Modern.

· mynychu'n anffurfiol neu gymryd rhan yng nghweithgareddau'r adran.

h) lle bo'n bosibl, mynychu sesiynau hyfforddiant penodol ar gyfer staff yr adran Ieithoedd Modern.

i) meddu ar well dealltwriaeth o'r adran Ieithoedd Modern.

j) ymgyfarwyddo gydag adrannau perthnasol y Cynllun Datblygu/Gwella'r Ysgol.

k) Cyfrannu ac adrodd ar broses hunan-arfarnu'r ysgol.

l) Darparu adborth adeiladol i lywodraethwyr yn dilyn ymweliad, gan wneud unrhyw argymhellion perthnasol trwy bwyllgorau neu gyfarfodydd llawn y corff llywodraethol.

Penodol:

m) Cyfarfod Pennaeth yr Adran Ieithoedd i drafod materion cwricwlwm penodol:

· ystyried materion cysylltiedig â pherfformiad/cynnydd, gan gynnwys y niferoedd sy'n dewis ieithoedd fel pwnc TGAU, UG a Lefel A a'r safonau a gyrhaeddir gan y disgyblion.

· bod yn ymwybodol o ba mor effeithiol mae'r pwnc yn diwallu anghenion dysgwyr.

· trafod datblygiadau'r cwricwlwm ac yn benodol datblygiadau'r Cwricwlwm Newydd a'r manylebau TGAU/UG/Lefel A newydd.

· trafod strategaethau dysgu ac addysgu ac argaeledd adnoddau.

· trafod sut mae ieithoedd yn cael eu hyrwyddo yn yr ysgol i ddisgyblion.

· ystyried gweithgareddau cyfoethogi a chymorth ar gyfer y disgyblion, a lle'n bosibl, ysytried sut y gall y llywodraethwyr gefnogi'r rhain.

· Casglu gwybodaeth am drefniadau amserlenni'r cwricwlwm gan gynnwys cyfyngiadau'r amserlen ar gyfer ieithoedd.

· Cael gwybodaeth am lefelau staffio ac anghenion hyfforddiant yr adran.

· Deall cryfderau a gwendidau'r maes cwricwlwm a thrafod meysydd gwelliant.

n) trafod gyda disgyblion am eu profiadau a'u barn am ieithoedd.

o) ystyried sut y mae gwybodaeth am y pwnc yn cael ei gyfathrebu gyda rhieni, yn enwedig ar wefan yr ysgol pha rôl mae rhieni'n eu chwarae yn addysg eu plant.

p) Cynorthwyo'r adran gyda'r broses hunan-arfarnu.

**YMWELD Â'R YSGOL**

**Cyn i chi gyrraedd yr ysgol, gofynnwch y cwestiynau canlynol i'ch hunan:**

- Beth yw pwrpas yr ymweliad – cytuno ar ffocws?
- Beth yw fy nisgwyliadau i a disgwyliadau'r adran Ieithoedd Modern?
- Sut y dylwn wneud hynny?
- Pa gwestiynau dylwn eu gofyn ac i bwy?
- Pa dystiolaeth sydd yna er mwyn cefnogi'r Cynllun Datblygu Ysgol a gytunwyd?
- Beth yw'r cryfderau a'r meysydd gwelliant y gallaf eu hadnabod?
- A oes yna unrhyw gamau dilynnol?
- Sut fyddaf yn cofnodi fy nghanfyddiadau?
- A wyf wedi paratoi adroddiad byr ar gyfer cyfarfod nesaf y llywodraethwyr gan gynnwys unrhyw bwyntiau gweithredu ar gyfer y corff llywodraethol a uwch reolwyr?
- Sut y gallaf adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd y tro hwn ar fy ymweliad nesaf?

**Cwestiynau defnyddiol pan yn cwrdd â arweinydd pwnc/yr adran:**

- Sut mae'r pwnc yn cael ei addysgu i grwpiau oedran gwahanol?
- A oes yna unrhyw dueddiadau gwahanol yn y niferoedd sy'n dewis ieithoedd neu yng nghyrhaeddiad disyblion o'u cymharu ag ysgolion tebyg neu gyfraddau cenedlaethol?
- A yw disgyblion o allu gwahanol yn gwneud yr un gwaith, neu a ydynt yn gweithio mewn grwpiau? A yw'n amlwg bod disgyblion yn dysgu?
- Sut mae'r disgyblion yn perfformio?
- Sut mae disgyblion ADY yn cael eu haddysgu?
- Sut mae'r gwaith yn cael ei asesu?
- A yw'r disgyblion yn mynd ar ymweliadau neu'n cael anerchiad gan siaradwyr gwadd?
- Sut y defnyddir sefydliadau allanol er mwyn hyrwyddo ieithoedd ac er mwyn cefnogi dysgu ac addysgu?
- Sut ydych chi'n cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Newydd yn yr adran gan sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad i o leiaf un iaith?
- A yw'r adnoddau dysgu ar gyfer y pwnc yn ddigonnol?
- Beth yw barn a gobeithion y staff dysgu ar gyfer y maes pwnc hwn?
- A allwch chi gynnig cymorth ymarferol? (e.e cysylltu â pherson/sefydliad yn y gymuned i gynnal digwyddiad neu i ymweld â'r ysgol?)
- Beth yw meini prawf Estyn wrth werthuso'r ddarpariaeth pwnc?
- Sut mae'r adran Ieithoedd Modern yn bwydo i mewn i'r Cynllun Datblygu Ysgol a'r hunan-arfaniad ysgol?

Ni ddylai'r llywodraethwr cyswllt ddisgwyl trafod y materion uchod i gyd mewn un cyfarfod. Pennir weithgareddau penodol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn ysgol felly bydd ffocws y cyfarfod yn newid or herwydd. Dylech gytuno ar ffocws y cyfarfod o flaen llaw.

Gellir cael gwybodaeth ychwanegol am rôl y llywodraethwyr cyswllt a'u gwaith yma: [www.governors.cymru](http://www.governors.cymru)

# CYFLWYNIAD AM BECYN ARFARNU IEITHOEDD MODERN


## RHAGOLWG












## Manylion cyswllt defnyddiol

**GwE:**

www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/
Stephanie Ellis Williams: stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

**EAS:**
sewaleseas.org.uk/
Sioned Harold: Sioned.Harold@sewaleseas.org.uk

**CSC:**
www.cscjes.org.uk/
Amy Walters-Bresner: awaltersbresner@outlook.com

**ERW:**
www.erw.wales/

routes into LANGUAGES
Ilwybrau at ieithoedd
CYMRU

http://routesintolanguagescymru.co.uk/
Ebost: info@routesintolanguagescymru.co.uk





# CANLLAW AR GYFER LLYWODRAETHWYR

Ieithoedd Modern a Rhyngwladol

LLWYBRAU AT IEITHOEDD CYMRU

©Llwybrau at Ieithoedd Cymru 2020